**Adroddiad ar ansawdd addysg uwchradd**

**yn**

**Ysgol Glan-y-Môr**
**Ffordd Caerdydd**
**Pwllheli**
**Gwynedd**
**LL53 5NU**

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2009**

**Rhif yr ysgol: 661/4040**

**Dyddiad cyhoeddi: 28 Ionawr 2010**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

**Lles: Da**

Mae’r disgyblion yn teimlo’n ddiogel yn yr ysgol. Maent yn gwybod sut i gadw’n iach ac yn heini ac yn meddu ar agweddau cadarnhaol at fwyta’n iach ac ymarfer corfforol. Mae llawer o’r disgyblion yn manteisio ar y cyfleoedd i wella lefelau ffitrwydd drwy gymryd rhan yn y gweithgareddau sydd ar gael iddynt.

**Profiadau dysgu: Da**

Mae enghreifftiau o waith da mewn rhai pynciau mewn perthynas ag addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang. Nid yw’r ddarpariaeth wedi ei chydlynu ar lefel ysgol-gyfan.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer datblygu’r iaith Gymraeg a’r dimensiwn Cymreig yn dda iawn. Mae hyn yn cynnwys sicrhau dilyniant a pharhad ym mhrofiadau dysgu’r disgyblion mewn perthynas â’r Gymraeg adeg trosglwyddo o’r ysgolion cynradd.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae darpariaeth briodol yn ei lle i hyrwyddo iechyd a lles disgyblion. Mae’r rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol (ABaCh) a’r gwersi tiwtorial yn rhoi sylw da i feysydd megis bwyta’n iach, addysg rhyw, cyffuriau a cyber-fwlio. Mae’r ysgol hefyd yn manteisio ar gynyrchiadau theatr mewn addysg.

Mae’r ysgol yn rhoi sylw dyladwy i hyrwyddo datblygiad profiadau ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion. Llwyddir i hyrwyddo agweddau fel cydraddoldeb, parch i gredoau pobl eraill a Chymreictod yn effeithiol. Mae materion gormes, hiliaeth a chydberthnasau yn cael eu trin a’u trafod trwy weithgareddau ABaCh, gwersi a phrosiectau amrywiol.

**Amgylchedd dysgu: Da**

Mae’r ysgol yn hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth cymdeithasol yn dda.

Mae polisïau a gweithdrefnau perthnasol yn eu lle ac mae’r ysgol yn diwallu’r dyletswyddau cyfreithiol sydd arni yn llawn. Mae’r cwricwlwm a’r rhaglen addysgol yn gynhwysol i bawb, beth bynnag yw hil, rhyw neu gefndir y disgyblion.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol gysylltiadau helaeth â’r ysgolion cynradd sy’n ei bwydo. Mae trefniadau bugeiliol yn galluogi disgyblion i ymgartrefu’n fuan yn yr ysgol, ac mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o wybodaeth i sicrhau cynhaliaeth i’r disgyblion ar sail eu hanghenion unigol. Mae trefniadau priodol yn eu lle i hyrwyddo dilyniant a pharhad cwricwlaidd rhwng cyfnodau allweddol 2 a 3.